BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

# CYSUR A CWMPAS

THE MID & WEST WALES SAFEGUARDING BOARD

CYNLLUN BLYNYDDOL | ANNUAL PLAN

## *2025-2026*

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Powys Teaching Health Board

GIG CYMRU NHS WALES Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol National Probation Service

Heddlu•Police DYFED-POWYS

Powys

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

**CYFLWYNIAD**

Mae’n bleser gan CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru a CWMPAS: Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru gyhoeddi a chyflwyno eu cynllun strategol blynyddol ar y cyd ar gyfer 2025-2026. Mae cydweithredu amlasiantaeth strategol yn parhau i fod yn gryf ar draws y bartneriaeth ac, yn ein barn ni, mae’n parhau i fod yn ffynhonnell gyson o gryfder wrth hyrwyddo ymarfer diogelu rhanbarthol a chenedlaethol.

Wrth inni symud ymlaen i’r flwyddyn nesaf, mae ein prif flaenoriaethau yn parhau i ganolbwyntio ar arwain y gwaith o gyflawni fframwaith dysgu a datblygu yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR). Yn ystod y flwyddyn flaenorol, gwelwyd hyfforddiant craidd yn cael ei gyflwyno’n llwyddiannus yn genedlaethol er mwyn cynorthwyo cadeiryddion, adolygwyr ac aelodau panel, a darparwyd hyfforddiant ym mhob un o’r chwe bwrdd diogelu rhanbarthol ledled Cymru. Yn y flwyddyn i ddod, bydd cyfres atodol o adnoddau hyfforddi digidol yn cael ei datblygu, sydd wedi’i thargedu at gynulleidfa ehangach, gan gynnwys hyfforddiant ‘Ymwybyddiaeth i Bawb’, ac adnoddau i gynorthwyo uwch-arweinwyr ar draws sefydliadau. Bydd hyn yn sefydlu fframwaith hyfforddi a dysgu cynhwysfawr ledled Cymru er mwyn cynorthwyo’r broses o roi canllawiau statudol SUSR ar waith, a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2024.

Bydd ymdrechion i hwyluso rhannu gwybodaeth yn fwy effeithiol ar draws asiantaethau gan ddefnyddio datblygiadau mewn technoleg a phlatfformau digidol yn parhau, ac mae rhaglen uchelgeisiol o waith yn yr arfaeth. Bydd rhoi ymarfer peilot ar waith sy’n defnyddio deallusrwydd artiffisial yn hwyluso’r gwaith o nodi plant sy’n wynebu risg yn gynharach yn y broses ddiogelu, gan gefnogi gwasanaethau ac ymatebion amlasiantaeth gwell i’r plant hynny sy’n wynebu’r perygl mwyaf o niwed.

Byddwn yn parhau i archwilio a chwilio am ffyrdd creadigol o ystyried lleisiau plant ac oedolion sydd mewn perygl yn rhaglen waith y bwrdd yn y flwyddyn i ddod. Byddwn yn datblygu model diwygiedig ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, ac yn dilyn y model Newid Mwyaf Sylweddol fel mecanwaith posibl ar gyfer cyfrannu barn oedolion sy’n wynebu risg yng ngwaith y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, gan ddefnyddio storïau gan y bobl hynny sydd â phrofiad bywyd.

Nid oes gennym unrhyw amheuaeth y bydd yr ethos hirsefydlog o gydweithio a gwaith partneriaeth cryf ar draws asiantaethau yn ein rhanbarth yn ffynhonnell barhaus o gryfder wrth symud ymlaen a chyflawni ein hamcanion gyda’n gilydd.





**Jake Morgan (Cadeirydd CYSUR)**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol
Cyngor Sir Caerfyrddin





**Michael Gray (Cadeirydd CWMPAS)**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Tai a Diogelu’r Cyhoedd
Cyngor Sir Penfro

## EIN GWELEDIGAETH

Gweledigaeth Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yw bod pawb yn y rhanbarth yn byw eu bywydau yn rhydd rhag trais, camdriniaeth, esgeulustod a chamfanteisio, a bod eu hawliau'n cael eu hamddiffyn. Mae'r holl waith diogelu yn sensitif i barch, ac wedi'i wreiddio'n gadarn mewn parch tuag at wahaniaethau o ran hil, ethnigrwydd, diwylliant, gallu, ffydd a chyfeiriadedd rhywiol. Mae ymgysylltu a bod yn ymatebol i anghenion pob rhanddeiliad, gan gynnwys plant, pobl ifanc, oedolion sy'n wynebu risg, eu teuluoedd, gofalwyr, darparwyr gwasanaethau a'r gymuned ehangach, yn hanfodol i hyrwyddo gweledigaeth y bwrdd.

| Aelodau Bwrdd Gweithredol Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | |
|---|---|
| **CWMPAS (Bwrdd Gweithredol Diogelu Oedolion)** | **CYSUR (Bwrdd Gweithredol Diogelu Plant)** |
| **Michael Gray (Cadeirydd)**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Diogelu'r Cyhoedd,<br>Cyngor Sir Penfro | **Jake Morgan (Cadeirydd)**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol,<br>Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **Mandy Nichols-Davies (Is-gadeirydd)**<br>Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs Enwebedig),<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **Gwag (Is-gadeirydd)** |
| **Jake Morgan**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol,<br>Cyngor Sir Caerfyrddin | **Michael Gray**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Diogelu'r Cyhoedd,<br>Cyngor Sir Penfro |
| **Audrey Somerton-Edwards**<br>Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyngor Sir Ceredigion | **Audrey Somerton-Edwards**<br>Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyngor Sir Ceredigion |
| **Nina Davies**<br>Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyngor Sir Powys | **Nina Davies**<br>Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyngor Sir Powys |
| **Sharon Daniel**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio,<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **Sharon Daniel**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio,<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **Claire Roche**<br>Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth,<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | **Claire Roche**<br>Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth,<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| **Olwen Morgan**<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio, Sicrwydd a Diogelu<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **Olwen Morgan**<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio, Sicrwydd a Diogelu<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **Ifan Charles**<br>Prif Gwnstabl Cynorthwyol,<br>Heddlu Dyfed-Powys | **Ifan Charles**<br>Prif Gwnstabl Cynorthwyol,<br>Heddlu Dyfed-Powys |
| **Avril Bracey**<br>Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion,<br>Cyngor Sir Caerfyrddin | **Wayne Bevan**<br>Ditectif Uwcharolygydd,<br>Heddlu Dyfed-Powys |
| **Donna Pritchard**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Gofal,<br>Cyngor Sir Ceredigion | **Jan Coles**<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant,<br>Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **Mel Laidler**<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Cyngor Sir Penfro | **Donna Pritchard**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Gofal,<br>Cyngor Sir Ceredigion |
| **Sharon Frewin**<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, | **Darren Mutter**<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant, |

| | |
|---|---|
| Cyngor Sir Powys | Cyngor Sir Penfro |
| **Liz Bowen**<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol,<br>Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | **Sharon Powell**<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant,<br>Cyngor Sir Powys |
| **Mandy Nichols-Davies**<br>Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant<br>(Nyrs Enwebedig),<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | **Mandy Nichols-Davies**<br>Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant<br>(Nyrs Enwebedig),<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **Jayne Wheeler-Sexton**<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu<br>(Nyrs Enwebedig),<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | **Jayne Wheeler-Sexton**<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu<br>(Nyrs Enwebedig),<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| **Debbie Pachu**<br>Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol<br>(GIG Cymru),<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru | **Debbie Pachu**<br>Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol<br>(GIG Cymru),<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Vicky Maxwell**<br>Pennaeth Diogelu,<br>Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau<br>Ambiwlans Cymru | **Vicky Maxwell**<br>Pennaeth Diogelu,<br>Ymddiriedolaeth GIG<br>Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| **Chris Harrison**<br>Cynrychiolydd rhanbarthol y Penaethiaid<br>Comisiynu | **Gill Adams**<br>Cynrychiolydd rhanbarthol<br>Rheolwyr Cyfiawnder Ieuenctid |
| **Dafydd Llywelyn**<br>Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-<br>Powys | **Cyfarwyddwyr Addysg Rhanbarthol**<br>Aelodaeth gylchol o Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin,<br>Ceredigion a Phowys |
| | **Dr Ingrid Prosser**<br>Meddyg Enwebedig, Amddiffyn Plant,<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| | **Dr Damitha Ratnasinghe**<br>Meddyg Enwebedig, Amddiffyn Plant,<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |

| **Uned Fusnes Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru** |
|---|
| **Julie Breckon**<br>Rheolwr Diogelu Rhanbarthol Strategol ar gyfer Plant ac Oedolion mewn Perygl |
| **Rebecca Reynolds**<br>Rheolwr Busnes Adolygu Ymarfer |
| **Theresa Welch**<br>Swyddog Datblygu Busnes |
| **Stuart Hicks**<br>Swyddog Datblygu Busnes |

**CANLYNIADAU BLAENORIAETH STRATEGOL A NODWYD AR GYFER 2025-2026**

1. **Datblygu diwylliant o gydweithredu ac arloesi ar draws y bartneriaeth, sy'n hyrwyddo gweithlu diogel, medrus a gwydn.**
2. **Mesur, rhoi tystiolaeth a deall effaith gwaith y bwrdd hwn ar arfer proffesiynol, a sut mae hyn yn gwella canlyniadau i blant ac oedolion sy'n wynebu risg.**
3. **Cynnal dadansoddiad systemig o berfformiad a newid sefydliadol i ddeall yn well eu heffaith ar blant ac oedolion mewn perygl.**
4. **Parhau i ddylanwadu ar yr agenda strategol genedlaethol, a chyfrannu ati, i gefnogi gwelliannau mewn deddfwriaeth, canllawiau a pholisi diogelu.**

   Mae sut yr ydym yn bwriadu cyflawni'r canlyniadau hyn, a'r crynodeb o'r gwelliannau yr ydym yn bwriadu eu gwneud i'n galluogi i gyflawni ein hamcanion, wedi'u rhestru yn ein cynllun busnes isod.

| 1. Datblygu diwylliant o gydweithredu ac arloesi ar draws y bartneriaeth, sy'n hyrwyddo gweithlu diogel, medrus a gwydn. | | |
|---|---|---|
| **Maes blaenoriaeth** | **Beth ydym am ei gyflawni?** | **Beth yw'r dangosyddion canlyniadau?** |
| **1.1 Rhannu gwybodaeth** | Cefnogi, hwyluso a hyrwyddo'r broses o rannu gwybodaeth ar draws asiantaethau yn y bartneriaeth, trwy ddatblygu datrysiadau a phlatfformau digidol, yn ogystal â hyrwyddo hyfforddiant a chanllawiau. | Bydd rhoi ymarfer peilot ar waith sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial yn hwyluso'r gwaith o nodi plant sy'n wynebu risg yn gynharach yn y broses ddiogelu, gan gefnogi gwasanaethau ac ymatebion amlasiantaeth gwell i'r plant hynny sy'n wynebu'r perygl mwyaf o niwed. |
| | | Bydd hyfforddiant, polisïau a chanllawiau sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth yn cyrraedd cynulleidfa amlasiantaeth eang o ymarferwyr diogelu. |
| **1.2 Trothwyon** | Cyhoeddi dogfen drothwy ranbarthol ddiwygiedig mewn fformat hawdd ei lywio, gan ddefnyddio platfform digidol, i ddarparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir i blant a'u teuluoedd ar draws y continwwm angen, o ymyrryd yn gynnar ar gyfer plant sydd mewn perygl o niwed sylweddol. | Bydd asesiadau risg, ymyrraeth a darpariaeth gwasanaethau diogelu ar gyfer plant ac oedolion mewn perygl yn amserol ac yn gymesur â lefel yr angen a lefel y risg. |
| | Adolygu'r trothwyon presennol ar gyfer oedolion sy'n wynebu risg, a diweddaru'r canllawiau rhanbarthol cyfatebol. | Bydd lefel uwch o gysondeb yn amlwg wrth gymhwyso trothwyon ar draws ardaloedd y pedwar awdurdod lleol ac ymarferwyr o asiantaethau statudol trwy argaeledd canllawiau arferion clir. |
| **1.3 Hyfforddiant Diogelu** | Cefnogi cydweithredu ar draws y rhanbarth i ddarparu hyfforddiant diogelu arbenigol pwrpasol sy'n cyd-fynd â'r safonau a'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer diogelu. | Bydd rhaglen o hyfforddiant diogelu ar gyfer grwpiau D i F, y gellir ei darparu'n rhanbarthol ar draws y pedwar awdurdod lleol, yn cael ei nodi. |
| | | Bydd hyfforddiant Adran 47 arbenigol yn cael ei ddarparu ar y cyd i swyddogion heddlu a gweithwyr cymdeithasol. |
| | Comisiynu a darparu mwy o hyfforddiant diogelu amlasiantaeth ar draws y rhanbarth. | Bydd gan ymarferwyr y sgiliau i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn well trwy ddarparu hyfforddiant diogelu o ansawdd uchel. |
| | Cynorthwyo'r broses o roi pecyn hyfforddi Grŵp B ar waith ar draws asiantaethau yn y | |

| | | |
|---|---|---|
| | rhanbarth, wedi'i alinio â'r safonau cenedlaethol ar gyfer hyfforddiant diogelu. | |
| **1.4 Gofal Cywir, Person Cywir** | Mewn cydweithrediad ag asiantaethau partner, cynorthwyo'r broses o roi'r model *Gofal Cywir, Person Cywir* ar waith. | Bydd plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed yn cael yr ymateb cywir gan yr asiantaeth gywir ar yr adeg gywir. |
| **1.5 Cam-drin cymhleth** | Archwilio cyfleoedd i wella'r canllawiau a'r wybodaeth sydd ar gael i ymarferwyr amlasiantaeth ynghylch cam-drin cymhleth a cham-drin wedi'i drefnu. | Bydd ymwybyddiaeth ymarferwyr o'r mater diogelu hwn yn gwella, gyda gwell dealltwriaeth o'r ymatebion y gellir eu darparu i blant ac oedolion lle mae amheuaeth eu bod mewn perygl o gam-drin cymhleth. |
| **1.6 Datblygu ymagweddau cydweithredol tuag at y gweithlu diogelu** | Cyfnerthu a pharhau i weithredu'r strategaethau gweithlu presennol ar draws asiantaethau yn y rhanbarth. | Bydd cydweithredu ar arfer gorau a 'beth sy'n gweithio' o ran recriwtio a chadw a thwf yn cael ei ddefnyddio a'i rannu ar draws ffiniau'r awdurdod lleol ac asiantaethau. |
| | | Bydd nifer y swyddi gwag, a nifer y gweithwyr asiantaeth cyflogedig mewn meysydd gwasanaeth sy'n hanfodol i fusnes, yn gostwng dros amser. |

| 2. Mesur, rhoi tystiolaeth a deall effaith gwaith y bwrdd hwn ar arfer proffesiynol, a sut mae hyn yn gwella canlyniadau i blant ac oedolion sy'n wynebu risg. | | |
|---|---|---|
| **Maes blaenoriaeth** | **Beth ydym am ei gyflawni?** | **Beth yw'r dangosyddion canlyniadau?** |
| **2.1 Archwilio a gweithredu strategaethau arloesol ar gyfer gwreiddio ac ystyried lleisiau plant ac oedolion sydd mewn perygl yn rhaglen waith y bwrdd** | Datblygu a threialu model diwygiedig ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i lywio gwaith y bwrdd diogelu, sy'n defnyddio'r rhwydweithiau a'r fforymau presennol i gynyddu cyrhaeddiad. | Bydd lleisiau plant a phobl ifanc yn cyfrannu at waith y bwrdd ac yn llywio ei flaenoriaethau a'i weithgareddau. |
| | | Bydd y bwrdd yn gallu dangos tystiolaeth o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ar draws y rhanbarth. |
| | Ystyried y model Newid Mwyaf Sylweddol fel mecanwaith posibl ar gyfer cynnwys lleisiau oedolion sydd mewn perygl yng ngwaith y bwrdd diogelu rhanbarthol. | Bydd lleisiau oedolion sy'n wynebu risg yn cyfrannu at waith y bwrdd ac yn llywio ei flaenoriaethau a'i weithgarwch, drwy'r broses o gasglu ac ystyried straeon gan ddefnyddwyr gwasanaethau. |
| | Bydd y grwpiau gweithredol lleol yn adolygu eu hagendâu gyda'r bwriad i nodi a gweithredu cyfleoedd i ystyried lleisiau plant ac oedolion sydd mewn perygl, mewn cysylltiad â'r ffrydiau gwaith rhanbarthol uchod. | Bydd grwpiau gweithredol lleol yn gallu dangos tystiolaeth o ymgysylltu lleol â phlant ac oedolion sydd mewn perygl, a fydd yn cyfrannu at y ffrydiau gwaith lleol a'r ffrydiau gwaith rhanbarthol, ac yn eu cefnogi. |
| **2.2 Sefydliadau sy'n gweithredu ar eu pen eu hunain** | Chwilio am ffyrdd o gefnogi cyrff a sefydliadau yn y rhanbarth sy'n gweithredu ar eu pen eu hunain yn well, ac nad ydynt yn ymwneud â'r seilwaith diogelu a'r gwasanaethau diogelu. | Bydd grwpiau ynysig a grwpiau agored i niwed yn fwy diogel ac yn fwy gweladwy o ganlyniad i arferion diogelu gwell a phrosesau llywodraethu cryfach. |
| **2.3 Atal hunanladdiad** | Mabwysiadu'r model ymateb cyflym peilot ar gyfer y bobl hynny yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan weithred o hunanladdiad tybiedig. | Bydd y gwersi a ddysgwyd o'r cynllun peilot rhanbarthol yn llywio'r gwaith o roi model rhanbarthol ar waith, sy'n darparu cymorth i rwydweithiau o bobl yr effeithir arnynt gan achosion o hunanladdiad tybiedig. |
| | Datblygu prosesau a fydd yn galluogi nodi clystyrau o hunanladdiad tybiedig ac ymateb iddynt yn well. | Bydd grwpiau gweithredol lleol mewn sefyllfa well i ymateb i grwpiau sy'n agored i niwed a allai fod mewn perygl o hunanladdiad, ac yr effeithir arnynt gan hunanladdiad. |

| | | |
|---|---|---|
| **2.4 Arferion diogelu oedolion** | Datblygu a gwreiddio ymateb amlasiantaeth mwy cydweithredol i arferion diogelu, sy’n cyd-fynd â gweithdrefnau diogelu Cymru a’r gwaith a wneir gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. | Bydd oedolion mewn perygl, y mae arnynt angen ymyrraeth neu wasanaeth, yn cael ymateb mwy cymesur a chydlynol ar draws asiantaethau. |

| **3. Cynnal dadansoddiad systemig o berfformiad a newid sefydliadol i ddeall yn well eu heffaith ar blant ac oedolion mewn perygl.** | | |
|---|---|---|
| **Maes blaenoriaeth** | **Beth ydym am ei gyflawni?** | **Beth yw’r dangosyddion canlyniadau?** |
| **3.1 Archwiliadau** | Rhoi model newydd ar waith i ymgymryd â rhaglen archwilio amlasiantaeth reolaidd ar gyfer plant ac oedolion sy’n wynebu risg, sydd wedi’i gysylltu’n uniongyrchol â’r themâu sy’n dod i’r amlwg o flaenoriaethau, data a fframwaith perfformiad sicrwydd ansawdd y bwrdd. | Gall trafodaethau mewn perthynas â’r prif faterion cyfredol ym maes diogelu gael eu llywio gan ddata rhanbarthol meintiol ac ansoddol a gesglir trwy fodel archwilio cadarn. |
| **3.2 Cofrestr risg** | Adolygu cyfnod cynllun peilot y gofrestr risg amlasiantaeth, ac addasu a datblygu fel y bo’n briodol. | Bydd gallu’r bwrdd i weld risg lefel uchel amlasiantaeth yn cael ei wella, gan alluogi ymateb cydgysylltiedig i blant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed. |
| **3.3 Sicrhau ansawdd a pherfformiad** | Adolygu fframwaith sicrhau ansawdd newydd y bwrdd gyda’r bwriad i gryfhau ein dadansoddiad o themâu a thueddiadau sy’n dod i’r amlwg. | Bydd plant ac oedolion sydd mewn perygl yn fwy diogel o ganlyniad i ymyrraeth ac ymarfer diogelu mwy gwybodus oherwydd gwybodaeth a hyfforddiant gwell. |
| | Parhau i gefnogi’r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB) a datblygiad y fframwaith perfformiad ar gyfer diogelu amlasiantaeth. | Bydd prosesau sicrhau ansawdd rhanbarthol yn cael eu halinio â ffrydiau gwaith cenedlaethol allweddol. |
| | Datblygu’r fframwaith presennol i gynnwys mecanwaith adrodd ar ddarpariaeth ac ansawdd hyfforddiant amlasiantaeth sy’n debyg i’r safonau a’r fframwaith cenedlaethol ar gyfer hyfforddiant diogelu. | Bydd trefniadau rhanbarthol ar gyfer adrodd ar ansawdd, darpariaeth a chomisiynu hyfforddiant diogelu yn cael eu cryfhau. |
| | | Rhoddir sicrwydd i aelodau’r bwrdd diogelu rhanbarthol bod gan ymarferwyr fynediad at hyfforddiant diogelu o ansawdd da sy’n briodol i’w rôl. |

| 4. Parhau i ddylanwadu ar yr agenda strategol genedlaethol, a chyfrannu ati, i gefnogi gwelliannau mewn deddfwriaeth, canllawiau a pholisi diogelu. | | |
|---|---|---|
| **Maes blaenoriaeth** | **Beth ydym am ei gyflawni?** | **Beth yw'r dangosyddion canlyniadau?** |
| **4.1 Adolygiad Diogelu Unedig Sengl** | Rhoi'r model Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR) ar waith ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru, gan sicrhau bod pecynnau cymorth, canllawiau a gweithdrefnau rhanbarthol yn cyd-fynd â'r canllawiau statudol a'r canllawiau cysylltiedig. | Cynhelir adolygiadau rhanbarthol yn unol â chanllawiau a deddfwriaeth, ac maent yn defnyddio canllawiau ar yr arferion gorau sydd ar gael yn y model. |
| | | Bydd y bwrdd yn goruchwylio'r broses o roi'r model ar waith ar draws y rhanbarth, ac yn goruchwylio ei ddatblygiad hefyd. |
| | Parhau i roi'r fframwaith dysgu a datblygu ar waith ar ran Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod yr hyfforddiant a'r canllawiau a ddatblygir yn cael eu hyrwyddo'n eang ar draws y bartneriaeth. | Bydd gan ymarferwyr a phartneriaid y bwrdd fynediad at raglenni hyfforddi perthnasol ar gyfer pob lefel sgil. |
| | | Bydd cyfleoedd mentora yn cael eu cynnwys yn y rhaglenni hyfforddi presennol. |
| | | Bydd ymwybyddiaeth ehangach o'r adolygiadau diogelu unedig sengl ar draws y rhanbarth, yn enwedig mewn perthynas ag uwch-arweinwyr / arweinwyr corfforaethol, yn ogystal ag ymarferwyr ar draws asiantaethau. |
| | | Bydd arferion rhanbarthol, mewn perthynas â'r adolygiadau diogelu unedig sengl yn cyd-fynd â'r modelau arferion gorau a hyrwyddir mewn hyfforddiant a chanllawiau. |
| | | Bydd cadeiryddion ac adolygwyr yn defnyddio rhwydweithiau a fforymau a ddatblygwyd er mwyn adeiladu model cymuned ymarfer sy'n cefnogi datblygiad ac yn codi hyder wrth gyflawni'r rolau hyn. |
| | Ymgysylltu â phartneriaethau diogelwch cymunedol i sefydlu perthynas gydweithredol sy'n hwyluso'r gwaith o gyflawni a goruchwylio adolygiadau diogelu unedig sengl yn effeithiol ag elfen cam-drin domestig. | Bydd trefniadau llywodraethu ynghylch adolygiadau lladdiadau domestig yn cael eu trosglwyddo'n ddidrafferth, wedi'u hategu gan fodel cydweithredol ar gyfer cynnal adolygiadau diogelu unedig sengl sy'n ymwneud â cham-drin domestig. |

| | | |
|---|---|---|
| | Archwilio cyfleoedd i ymgorffori dysgu thematig yn rhaglen waith y bwrdd, trwy ffrydiau gwaith a llwybrau gwaith rhanbarthol, yn ogystal â defnyddio Storfa Ddiogelu Cymru. | Bydd ffrydiau gwaith a blaenoriaethau'r bwrdd yn cael eu llywio'n uniongyrchol gan y themâu a nodir mewn adolygiadau diogelu unedig sengl rhanbarthol a chenedlaethol. |
| **4.2 Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol** | Cefnogi grwpiau strategol a chyflawni rhaglenni trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu rhaglen waith fel y nodir yn y strategaeth ranbarthol a'r cynllun strategol. | Bydd cynnydd clir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn cael ei wneud yn erbyn y camau gweithredu a nodir yn strategaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol 2023-2027, y gellir ei darllen yma. Bydd hyn yn gwella gwasanaethau ac arferion diogelu ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig. |
| | | Bydd llwybrau ymateb creadigol ac arloesol yn cael eu datblygu ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig, gan gynnwys opsiwn ar gyfer ymateb ymarferol. |
| **4.4 Marwolaethau babanod y gellid eu hatal, sy'n gysylltiedig â chwsg diogel** | Datblygu a lansio strategaeth ranbarthol mewn perthynas â chwsg mwy diogel, gan gynnwys y canllawiau sydd ar gael i deuluoedd ac ymarferwyr. | Bydd rhieni yn gallu cael mynediad at wybodaeth glir, hygyrch ynglŷn â chwsg mwy diogel. |
| | | Bydd gan ymarferwyr ymwybyddiaeth o'r adnoddau a'r canllawiau sydd ar gael i'w cefnogi i hyrwyddo arferion cysgu mwy diogel gyda'r teuluoedd y maent yn rhoi cymorth iddynt. |
| **4.5 Trosedd a chyfiawnder** | Sicrhau bod deilliannau diogelu allweddol o ffrydiau gwaith rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol sy'n gysylltiedig â gwaith troseddu a chyfiawnder yn cael eu hystyried a'u hymwreiddio yn ffrydiau gwaith y bwrdd. | Bydd gwaith is-grwpiau'r bwrdd yn cael ei lywio gan allbynnau o'r gwaith dyletswydd trais difrifol rhanbarthol, yr adolygiad dedfrydu cenedlaethol a Prevent. |

## GWARIANT ARFAETHEDIG Y BWRDD I GYFLAWNI EIN HAMCANION

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Awdurdodau lleol**:<br>• Ceredigion 15%<br>• Powys 25%<br>• Sir Gaerfyrddin 35%<br>• Sir Benfro 25% | 60% | **Iechyd:**<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda 75%<br>• Bwrdd Iechyd Addysgu Powys 25% | 25% | Cyfanswm: 100% |
| **Yr heddlu**<br>• Heddlu Dyfed-Powys | 10% | **Gwasanaeth prawf:**<br>• Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | 5% | |

| **Cyllideb arfaethedig 2025-2026** | | | **Cyfraniadau asiantaeth arfaethedig 2025-2026** | |
|---|---|---|---|---|
| Costau staff a chyflogau | 213,440 | | Cyngor Sir Ceredigion | 18,485 |
| | | | Cyngor Sir Powys | 30,808 |
| Offer a meddalwedd TG | 1,020 | | Cyngor Sir Caerfyrddin | 43,132 |
| Costau swyddfa, gweinyddol a recriwtio | 9,723 | | Cyngor Sir Penfro | 30,808 |
| Teithio, lleoliadau a chyfathrebu | 5,817 | | Heddlu Dyfed-Powys | 20,539 |
| Cyhoeddusrwydd, hyrwyddo a chyfieithu | 7,118 | | Gwasanaeth Prawf Cymru | 10,270 |
| Comisiynu ymchwil, prosiectau a gomisiynir yn annibynnol a darparu hyfforddiant rhanbarthol pwrpasol yn allanol | 10,272 | | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 38,511 |
| | | | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 12,837 |
| | | | Arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru | 42,000 |
| **CYFANSWM** | **247,390** | | **CYFANSWM** | **247,390** |

## SUT YR YDYM YN BWRIADU CYDWEITHIO AG UNIGOLION NEU GYRFF ERAILL

Bydd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i weithio ar y cyd, ac mewn partneriaeth, â'r holl fyrddau diogelu eraill yng Nghymru drwy fod yn bresennol mewn cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer y rheolwyr busnes a'r cydlynwyr busnes a hwylusir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth ac arferion da yn rheolaidd mewn perthynas ag adolygiadau ymarfer, cydlynu themâu a chyfathrebu Wythnos Ddiogelu Genedlaethol, a digwyddiadau ad hoc / pwrpasol eraill a drefnir yn allanol. Yn benodol, bydd cydweithio cryf yn cael ei gyflawni eleni gyda rhanddeiliaid allweddol amrywiol wrth inni barhau i oruchwylio'r gwaith o weithredu fframwaith dysgu a datblygu'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, a hwyluso digwyddiadau hyfforddi wyneb yn wyneb, ochr yn ochr â datblygu adnoddau hyfforddi digidol ategol.

Rydym yn parhau i lunio'r agenda diogelu cenedlaethol a'r sgwrs, ac rydym yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, Gofal Cymdeithasol Cymru a Llywodraeth Cymru ar sawl ffrwd gwaith cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys parhau i gefnogi datblygiad fframwaith perfformiad diogelu amlasiantaeth cenedlaethol a nifer o brosiectau cenedlaethol, gan gynnwys gweithrediad parhaus y safonau a fframwaith hyfforddiant cenedlaethol, yn ogystal â chefnogaeth barhaus i fwrdd prosiect gweithdrefnau diogelu Cymru.

## SUT YR YDYM YN RHOI CYFLE I BOBL YR EFFEITHIR ARNYNT GAN WAITH Y BWRDD I GYFRANOGI

Mae gan y pedwar awdurdod lleol yn ôl troed Canolbarth a Gorllewin Cymru, sef Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys, bartneriaethau a grwpiau diogelu iau lleol. Mae'r rhain wedi'u halinio'n agos â grŵp gweithredol lleol amlasiantaeth lle mae aelodau iau yn mynd i gyfarfodydd y grwpiau gweithredol lleol ar faterion diogelu lleol ar gyfer pobl ifanc ac yn rhannu gwybodaeth â nhw. Bydd hyn yn parhau yn y flwyddyn i ddod.

Oherwydd llu o heriau'n ymwneud ag ymgysylltu cyson ac aelodaeth, bydd partneriaeth hirsefydlog y bwrdd diogelu rhanbarthol gyda TGP Cymru i gomisiynu bwrdd diogelu rhanbarthol ar gyfer pobl ifanc yn dod i ben eleni. Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd y bwrdd yn treialu model diwygiedig er mwyn defnyddio fforymau presennol i gynnwys plant a phobl ifanc yng ngwaith y bwrdd.

Mae panel o oroeswyr, sy'n cynnwys goroeswyr cam-drin domestig, yn cael eu cynnwys yn effeithiol yn ffrydiau gwaith y bwrdd sy'n ymwneud â gwaith rhanbarthol ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae eu lleisiau a'u profiad bywyd yn cyfrannu at gyfarfodydd rhanbarthol ac yn gweithio'n rheolaidd. Mae hyn wedi cynnwys, er enghraifft, gwaith i gefnogi aelodau o'r farnwriaeth yn eu dealltwriaeth a'u hymatebion i oroeswyr o gam-drin domestig. Mae'r bwrdd yn y broses o ystyried sut i ymgysylltu'n well â grŵp ehangach o oedolion sydd mewn perygl, ac mae wrthi'n ystyried rhoi'r model Newid Mwyaf Sylweddol ar waith yn strwythurau'r bwrdd trwy gasglu ac adrodd storïau gan ddefnyddwyr gwasanaeth sydd â phrofiad byw.

Bydd cynlluniau i wrando ar leisiau goroeswyr o gam-drin domestig yn parhau eleni, fel yr amlinellir yn y strategaeth VAWDASV ranbarthol (2023-2027).

I gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, ewch i'n gwefan:

https://cysur.cymru/

**SUT I ADRODD AM BRYDERON**

Os ydych yn amau bod plentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn **yn wynebu risg uniongyrchol o niwed, ffoniwch 999** a siaradwch â'r **heddlu**.

Os hoffech chi adrodd ar ddigwyddiad **nad yw'n fater brys** neu os oes gennych broblem neu ymholiad cyffredinol, gallwch ffonio **101** i gyrraedd y gwasanaeth 24 awr ar gyfer materion nad ydynt yn rhai brys.

Os ydych yn pryderu am ddiogelwch neu lesiant plentyn, mae gennych ddyletswydd i roi gwybod amdano ar unwaith. Cysylltwch â:

| |
|---|
| **SIR GAERFYRDDIN:**<br>Yn ystod oriau swyddfa: Tîm atgyfeirio canolog – 01554 742322<br>(8.45am - 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau, 8.45am - 4.30pm dydd Gwener)<br>Y tu allan i oriau swyddfa: 0300 333 2222<br>E-bost: CRTChildren@carmarthenshire.gov.uk |
| **CEREDIGION:**<br>Yn ystod oriau swyddfa: Canolfan gyswllt – 01545 574000<br>Y tu allan i oriau swyddfa: Tîm dyletswydd argyfwng – 0300 456 3554<br>E-bost: contact-socservs@ceredigion.gov.uk |
| **SIR BENFRO:**<br>Yn ystod oriau swyddfa: Tîm asesu – 01437 776444<br>Y tu allan i oriau swyddfa: Tîm dyletswydd argyfwng – 0300 123 5519<br>Cyfeiriad e-bost: CCAT@pembrokeshire.gov.uk |
| **POWYS:**<br>Drws Ffrynt: 01597 827666<br>(8.45am - 4.45pm o ddydd Llun i ddydd Iau, 8.45am - 4.15pm dydd Gwener)<br>Y tu allan i oriau swyddfa: 0845 0544847<br>E-bost: csfrontdoor@powys.gov.uk |

Os ydych yn pryderu am ddiogelwch neu les oedolyn, mae gennych ddyletswydd i roi gwybod amdano ar unwaith. Cysylltwch â:

| |
|---|
| **SIR GAERFYRDDIN:**<br>Gwasanaeth gwybodaeth, cyngor neu gymorth ar 0300 333 2222 (ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos) neu gwnewch atgyfeiriad trwy'r wefan www.sirgar.llyw.cymru<br>E-bost: iaa@deltawellbeing.org.uk |
| **CEREDIGION:**<br>Yn ystod oriau swyddfa: Canolfan gyswllt – 01545 574000<br>Y tu allan i oriau swyddfa: Tîm dyletswydd argyfwng – 0300 456 3554<br>E-bost: contact-socservs@ceredigion.gov.uk |
| **SIR BENFRO:**<br>Yn ystod oriau swyddfa: Tîm dyletswydd – 01437 776056<br>Y tu allan i oriau swyddfa: Tîm dyletswydd argyfwng – 0300 123 5519<br>E-bost: adult.protection.team@pembrokeshire.gov.uk |
| **POWYS:**<br>Yn ystod oriau swyddfa: 03456 027050 (8.30am - 4.45pm o ddydd Llun i ddydd Iau, 8.30am - 4.15pm dydd Gwener)<br>Y tu allan i oriau swyddfa: Tîm dyletswydd argyfwng – 0300 333 2222<br>E-bost: assist@powys.gov.uk |